# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Datganiad Polisi Cyflogau 2021/22

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cydnabod pwysigrwydd tegwch a thryloywder mewn perthynas â'i threfniadau cyflog ar gyfer staff a'i chyfrifoldeb i sicrhau cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal.

1.2. Diben y datganiad hwn yw darparu tryloywder o ran dull y brifysgol o bennu cyflogau ei staff drwy nodi'r dulliau o bennu cyflogau'r holl staff.

1.3. Diben y datganiad yw helpu i wella dealltwriaeth a hyder y cyhoedd ynghylch y modd y penderfynir ar gyflogau uwch staff yn benodol.

## 2. Fframwaith deddfwriaethol

2.1. Ffurfiwyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) ar 18 Tachwedd 2010 drwy uno Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod Caerfyrddin, o dan Siarter Frenhinol Llanbedr Pont Steffan1828.

2.2. Ar 1 Awst 2013, daeth Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn rhan o'r Drindod Dewi Sant. Siarter Frenhinol y Brifysgol yw'r hynaf yng Nghymru a Lloegr ar ôl prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

2.3. Mae'r Drindod Dewi Sant wedi arwain y gwaith o ddatblygu strwythur prifysgol sector deuol, a elwir yn Grŵp Y Drindod Dewi Sant, fframwaith i alluogi pobl i gydweithio â sefydliadau eraill o fewn y rhanbarth. Yn rhan o'r datblygiad hwn, unwyd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion â Grŵp Y Drindod Dewi Sant yn 2013/14 ac fe'u cynrychiolir ar y prif gyrff gwneud penderfyniadau academaidd yn y Brifysgol, wrth gynnal eu hunaniaeth sefydliadol benodol eu hunain.

2.4. Mae'r Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru wedi ymrwymo i integreiddio cyfansoddiadol diymwad i greu Prifysgol sector deuol wedi'i thrawsnewid i Gymru. Mae'r ddwy Brifysgol wedi bod wrth wraidd addysg a bywyd diwylliannol Cymru ers eu sefydlu yn 1828 a 1893. Mae'r egwyddorion polisi a nodir yn y datganiad hwn yn berthnasol i'r naill sefydliad a'r llall.

2.5. Wrth benderfynu ar gyflog a chydnabyddiaeth ei holl weithwyr, bydd y Brifysgol yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol.

## 3. Strwythur cyflogau a gwneud penderfyniadau

3.1. Trafododd Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau (UCEA) a'r holl undebau llafur a gydnabyddir gan y sector addysg uwch (AU) Gytundeb Fframwaith Cenedlaethol ym mis Mai 2004 i ddiwygio strwythurau cyflog, graddau a rhai telerau ac amodau ar draws y sector.

3.2. Gweithredwyd y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol yn lleol ym mhob un o'r cyn-sefydliadau a unodd i ffurfio'r Drindod Dewi Sant. Trafodwyd cytundeb lleol newydd yn 2013 gydag undebau llafur cydnabyddedig Y Drindod Dewi Sant pan gafodd telerau ac amodau cyflogaeth eu cysoni yn dilyn uno'r Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe ac mae'n parhau i fod ar waith heddiw. Mae cwmpas y cytundeb yn cynnwys yr holl staff ac eithrio'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion a'r Pro Is-Gangellorion.

3.3. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu a gweithredu system werthuso swyddi wrthrychol, ddadansoddol, Dadansoddi Rôl Addysg Uwch (HERA) ar gyfer yr holl staff ac eithrio'r swyddi rheoli hynny ar lefel cyflog sy'n uwch na'r golofn gyflog sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol (Atodiad 1).

3.4. Mae'r cytundeb lleol yn cynnwys y diffiniad o'r strwythur graddau a'r dyddiad dilyniant cynyddol ar gyfer staff o fewn pob gradd, sef 1 Awst bob blwyddyn.

3.5. Mae'r Brifysgol hefyd yn gwneud taliad atodol mewn perthynas â'r Cyflog Byw Gwirioneddol gwirfoddol a chyflawnodd achrediad yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Tachwedd 2019. Pennir y cyfraddau Cyflog Byw Gwirioneddol gan y Sefydliad Cyflog Byw sy'n berthnasol i staff sy'n ymwneud â'r pwyntiau is ar y golofn gyflog.

## 4. Bargeinio ar y Cyd

4.1. Mae'r Drindod Dewi Sant yn cydnabod yr undebau llafur canlynol at ddibenion bargeinio ar y cyd ar delerau ac amodau cyflogaeth drwy gytundebau lleol:

- Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- UNSAIN

4.2. Caiff adolygiad cyflogau blynyddol o werthoedd ariannol y golofn gyflog ei negodi ar lefel genedlaethol a hynny dan arweiniad UCEA ar ran ei aelod-brifysgolion sy'n dewis bob blwyddyn a fyddant yn cymryd rhan.

4.3. Mae gweithdrefn genedlaethol gytûn ar gyfer negodi ar gyflogau, sy'n cynnwys tri chyfarfod rhwng UCEA ac undebau llafur sy'n cynrychioli'r sector. Cynhelir y cyfarfodydd hyn fel arfer ym mis Mawrth, Ebrill a Mai bob blwyddyn ac mae'r dyfarniad cyflog blynyddol yn weithredol o 1 Awst ymlaen.

## 5. Cyflogau staff uwch

5.1. Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am sefydlu Pwyllgor Sefydlog o'r Cyngor, sef y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, i bennu cydnabyddiaeth deg a phriodol i'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion a'r Pro Is-Gangellorion.

5.2. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am adolygu a phenderfynu'n flynyddol ar gyflogau, telerau ac amodau, a phan fo'n briodol, amodau diswyddo deiliaid yr uwch swyddi uchod. Cyhoeddir cylch gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar wefan y Brifysgol gan sicrhau bod y rhain ar gael i staff, myfyrwyr a'r holl randdeiliaid mewn

modd agored a thryloyw: [Cylch Gorchwyl y Pwyllgor]. Nid yw'r Is- Ganghellor yn aelod o'r Pwyllgor hwn. Nid yw'r Is-Ganghellor yn aelod o'r Pwyllgor hwn ond fe'i gwahoddir i gynghori'r Pwyllgor ynghylch swyddogion eraill yn ei gylch gwaith.

5.3. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried y cyd-destun y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo. Mae'n ystyried y gwerth a ddarperir gan unigolyn sy'n gweithredu o fewn rôl sy'n seiliedig ar gydrannau perthnasol ar gyfer cyd-destun Y Drindod Dewi Sant.

5.4. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl argymhellion yn deg ac yn ystyried diddordeb sefydliadol, rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid gan gynnwys cymuned y myfyrwyr a'r gymdeithas ehangach. Mae diogelu arian cyhoeddus hefyd yn rhan o'i drafodaethau, ochr yn ochr â'r angen i recriwtio a chadw staff.

5.5. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried sefyllfa'r farchnad a gwybodaeth gymharol briodol am Brifysgolion eraill i lywio ei phenderfyniadau fel yr argymhellir gan CCAUC. Yn nodweddiadol, bydd hyn yn cynnwys prifysgolion eraill o faint canolig (ar sail incwm) a arweinir gan addysgu, megis Prifysgol Derby, Prifysgol Northampton, Prifysgol Swydd Bedford, Prifysgol Lincoln, Prifysgol Caerwrangon, Prifysgol Sba Caerfaddon a Phrifysgol Edgehill.

5.6. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ystyried penderfyniadau i ddatgelu unrhyw incwm a gynhyrchir gan unigolyn o gyrff allanol mewn rhinwedd personol. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r datgeliadau a'r esboniadau hyn gael eu gwneud ymlaen llaw a chyn cynnal unrhyw weithgareddau. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y datgeliadau hyn gyda'r bwriad o wrthod incwm a gedwir.

5.7. Mae'r pwyllgor hefyd yn ystyried y gyfradd flynyddol o gynnydd yng nghyfuniadau cyfartalog yr holl staff eraill.

5.8. Achosodd dyfarniad cyflog cenedlaethol UCEA 2022-23 ymgodiad i'r golofn gyflog, wedi'i graddio mewn modd a fyddai'n dyfarnu cynnydd o hyd at 9% i bwyntiau cyflog sy'n is na phwynt Colofn 20, a chynnydd o 3% i bob pwynt cyflog sy'n cyfateb i, neu'n uwch na phwynt Colofn 20. Yn ogystal, dyfarnwyd hefyd i staff cymwys, sef goddrych y trafodaethau, gynnydd i'w cyflog dilyniant sy'n amrywio o 1.5% i 3%.

5.9. Roedd y cynnydd canrannol a ddyfarnwyd i aelodau Uwch Dîm y Brifysgol hefyd yn 3%.

5.10. Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n gyfrifol am gyflwyno argymhellion y Pwyllgor Cydnabyddiaeth i Gyngor y Brifysgol.

5.11. Mae'r Drindod Dewi Sant yn cyhoeddi ei Datganiadau Ariannol ar gyfer pob blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf. Mae'r rhain yn cynnwys cyflog yr Is-Ganghellor. Gellir gweld y Datganiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf 2022 yma: [Datganiadau Ariannol Cyfunol 31 Gorffennaf 2022]

5.12. Mae Is-Ganghellor Y Drindod Dewi Sant hefyd yn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru a dosrannir cyfran briodol o'r cyflog blynyddol i Brifysgol Cymru yn unol â hynny.

## 6. Y Cyflog Byw Gwirioneddol gwirfoddol

6.1. Sicrhaodd y Brifysgol achrediad cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Tachwedd 2019 a bu'n talu'r cyfraddau cyflog byw gwirioneddol yn wirfoddol ers 1 Awst 2017. Gweithredwyd y gyfradd gyfredol o £9.90 (£11.05 i Lundain) ar 1 Mai 2022 drwy dalu ychwanegion fesul awr i staff sy'n chwarae rolau sylweddol ar bwyntiau isaf colofn gyflogau Sengl 2022 (Atodiad 1).

## 7. Perthynoleddau cyflogau

7.1. Y cyflog isaf yn y Brifysgol yw pwynt colofn 4 (Atodiad 1). Yr aelod staff sydd â'r cyflog uchaf yw'r Is-Ganghellor.

Cymhareb yr enillion uchaf i'r enillion canolrif yn achos y Brifysgol ar gyfer 2021/22 (gyda chymhareb 2020/21 er cymhariaeth) yw:

| | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Cymhareb yr enillion uchaf i'r cyflog sylfaenol canolrifol | 6.48 | 6.79 |

Ffynhonnell: HESA, UCEA a Chyfrifon blynyddol

**Atodiad 1**

# Colofn gyflog sengl AU

Mae'r golofn gyflog sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol yn cynnwys y rhan fwyaf o sefydliadau AU yn y DU, gan gynnwys Y Drindod Dewi Sant

| Pwynt colofn | Cyflog o 1 Awst 2021 (£) | Cyflog o 1 Awst 2022 (£) |
|---|---|---|
| 3 | 17,338 | 18,898 |
| 4 | 17,596 | 19,092 |
| 5 | 17,901 | 19,333 |
| 6 | 18,212 | 19,578 |
| 7 | 18,529 | 19,863 |
| 8 | 18,852 | 20,134 |
| 9 | 19,209 | 20,400 |
| 10 | 19,623 | 20,761 |
| 11 | 20,092 | 21,197 |
| 12 | 20,600 | 21,630 |
| 13 | 21,135 | 22,149 |
| 14 | 21,686 | 22,662 |
| 15 | 22,254 | 23,144 |
| 16 | 22,847 | 23,715 |
| 17 | 23,487 | 24,285 |
| 18 | 24,174 | 24,948 |
| 19 | 24,871 | 25,642 |
| 20 | 25,627 | 26,396 |
| 21 | 26,341 | 27,131 |
| 22 | 27,116 | 27,929 |
| 23 | 27,924 | 28,762 |
| 24 | 28,756 | 29,619 |
| 25 | 29,614 | 30,502 |
| 26 | 30,497 | 31,411 |
| 27 | 31,406 | 32,348 |
| 28 | 32,344 | 33,314 |
| 29 | 33,309 | 34,308 |
| 30 | 34,304 | 35,333 |
| 31 | 35,326 | 36,386 |
| 32 | 36,382 | 37,474 |
| 33 | 37,467 | 38,592 |
| 34 | 38,587 | 39,745 |
| 35 | 39,739 | 40,931 |
| 36 | 40,927 | 42,155 |
| 37 | 42,149 | 43,414 |
| 38 | 43,434 | 44,737 |
| 39 | 44,706 | 46,047 |
| 40 | 46,042 | 47,423 |
| 41 | 47,419 | 48,841 |
| 42 | 48,835 | 50,300 |
| 43 | 50,296 | 51,805 |
| 44 | 51,799 | 53,353 |

| Pwynt colofn | Cyflog o 1 Awst 2021 (£) | Cyflog o 1 Awst 2022 (£) |
|---|---|---|
| 45 | 53,348 | 54,949 |
| 46 | 54,943 | 56,592 |
| 47 | 56,587 | 58,284 |
| 48 | 58,279 | 60,027 |
| 49 | 60,022 | 61,823 |
| 50 | 61,818 | 63,673 |
| 51 | 63,668 | 65,578 |